CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 7fed o Chwefror 2017 yn yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Julie Charlton

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Robin Phillips, Alwyn Evans, Lon Davies, Llinos Davies

Cynghorydd Sir: Cyng Keith Lewis

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau I'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Ieuan Davies

Cofnodion 03.01.2017

Cynigodd Lon Davies ac eiliodd Alwyn Evans fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

91. Clawdd Fin rhwng Fosgloves a Ysgol Eglwyswrw wedi ei datrys.

Gohebiaeth

92. Cyngor Sir Benfro – Cynllun Datblygu Lleol – Diweddaru Arolwg o Gyfleusterau Gwledig. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb. Clerc I gwbwlhau ai ddychwelyd yn ôl.
93. Cyfanswm yn y Banc 25.2.17- £3,636.05
94. Un Llais Cymru Arolwg – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb. Clerc I gwbwlhau ai ddychwelyd yn ôl.
95. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Gweithdai Cynghorau Cymuned a Thref. Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.
96. Calonnau Cymru – Gyda'n Gilydd, gallwn helpu I arbed bywydau yng Nghymru. Gwybodaeth ynglyn a diffibrilwyr ac hefyd digwyddiadau I godi arian.
97. Cyngor Sir Benfro Cais cynllunio Mr. Aled Rees, Treclyn Isaf, Eglwyswrw – Cyn trafod fe dangosodd Robin Phillips ei diddordeb yn y mater. Cais ar gyfer dymchwel adeiladau presennol ac adnewyddu gyda adeilad modern, parlwr godro newydd a estyniad I lagwn slyri. Roeed pawb yn hapus gyda'r cais. Clerc I ysgrifennu llythyr I gadarnhau cefnogaeth.
98. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais cynllunio Mr a Mrs. Butler Ravel, Brynberian ar gyfer addasu ac ymestyn adeiladau amaethyddol er mwyn ffurfio 2 uned gwyliau. Hefyd creu mynediad newydd I gerbydau ac newidiadau I stablau presennol.
99. Eisteddfod Brynberian – Cyn trafod dangosodd Lon Davies ei diddordeb yn y mater. Llythyr ar gyfer cais ariannol ar gyfer cynnal yr Eisteddfod. Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Robin Phillips cyfranniad o £100.00

Unrhyw Fater Arall

100. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Isfryn Pontyglasier – Newid defnydd y tir ac adeilad ar gyfer llety gwyliau. Mae'r cais yma yn cael ei ystyried gan yr awdurdod 8.2.2017.
101. Yr Arolygiaeth Gynllunio – Cais Mr. N. Davies Llain, Eglwyswrw - Llythyr I gadarnhau bod y cais yma wedi ei wrthod.
102. Stich in Time – ebost oddiwrth Awdurdod PArc Cenedlaethol Penfro ynglyn a prosiect sydd ar gael ar gyfer lladd Japanese Knotweed ayyb. Clerc I gysylltu ynglyn a chael mwy o wybodaeth.
103. Paul Sartori – Llythyr ar gyfer cais ariannol. Cynigodd Enid Cole ac eiliodd Ceirwyn John cyfranniad o £50.00
104. Canser mewn plant yn eu harddegau – Ar ol drafod fe penderfynnwyd peidio cyfrannu eleni.
105. Tenovus Cancer Care – Ar ol drafod fe penderfynnwyd peidio cyfrannu eleni.
106. Un Llais Cymru Aelodaeth 2017/18. Cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Alwyn Evans ymaelodi eto eleni. Taliad o £103.00.
107. Cadarnhaodd y Cyng. Keith Lewis bod Mr. Adrian Milner, Brynvilla, Eglwyswrw yn ail osod ei cais cynllunio.
108. Mae Mr. Absalom, Serjeants Inn wedi bod mewn cysylltiad gyda Cyng Keith Lewis ynglyn a Safle Bws a cysgodfan bws y pentref. Cyng. K. Lewis mewn cysylltiad gyda Hubert Mathias.
109. Derbynniwyd y clerc ebost wrth Bethan Williams, Henllan Owen, Eglwyswrw yn son am y iaith maen cyfarfodydd yn cael ei cynnal. Clerc I gadarnhau bod ein cyfarfodydd a cofnodion misol yn ddwy eithog.
110. Fe ddywedodd Ceirwyn John bod yna llawer o carafanau yn Llwyncelyn, Eglwyswrw. Clerc I gysylltu a Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ynglyn a cais cynllunio ar gyfer y holl carafannau.
111. Mae Enid Cole wedi cael cwyn oddiwrth y cyhoedd ynglyn a cyflwr y rhewl rhwng Rhos Eglwyswrw a Swan. Clerc I gysylltu a Cyngor Sir Benfro ynglyn a hyn.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 7fed o Fawrth am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.05